



## YSGOL I.D. HOOSON

18.3.20

### **PWYSIG DARLLENWCH OS GWELWCH YN DDA**

Annwyl Rieni/ Gofalwyr,

Rydym wedi derbyn gwybodaeth heddiw bod pob ysgol yng Nghymru i gau **erbyn dydd Gwener Mawrth 20fed**, hyd at ddiwedd gwyliau'r Pasg neu hyd y clywch yn wahanol. Yng ngoleuni hyn, dyma fydd y drefn ar gyfer Ysgol I D Hooson:

- Byddwn yn gofyn i chi gadw eich plentyn, **os yn bosib**, adref fory sef dydd Iau Mawrth y 19eg. Os nad yw hyn yn bosib oherwydd amgylchiadau gwaith ayyb, fe fydd yna staff yma i edrych ar eu hól yfory ac ar ddydd Gwener.
- Bydd staff yn paratoi gwaith a gweithgareddau ar gyfer y plant ar gyfer cyfnod ble bydd yr ysgol ar gau. Os nad yw eich plentyn yn mynychu'r ysgol yfory, sef dydd Iau Mawrth y 19eg, gallwch gasglu pecyn gwaith i'ch plentyn o **fore Gwener**.
- Cadwch olwg ar negeseuon a ddaw drwy safle Trydar yr ysgol, Schoop, gwefan yr ysgol a gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn arbennig wrth i ni agosau at ddiwedd cyfnod gwyliau'r Pasg. Cofiwch fod Dydd Llun, Ebrill 20fed ar hyn o bryd yn ddiwrnod hyfforddiant staff.
- Bydd y clwb brechwast a'r clwb ar ôl ysgol yn gweithredu fel arfer yfory a dydd Gwener i unrhyw ddisgyblion sydd angen y gwasanaeth fel yr arfer.
- ran addysg y disgyblion, rydym mewn sefyllfa ble bydd yna yn amlwg newid i addysg arferol y disgyblion. Mae'r staff yn cynllunio ac yn paratoi gweithgareddau a syniadau ar gyfer tasgau y gellid ei gwneud adref er mwyn rhoi cyfleoedd iddynt barhau i ymarfer ei sgiliau o fewn sefyllfaoedd amrywiol. Mae gan disgyblion o flynyddoedd 1 hyd at 6 fynediad i lwyfan dysgu Hwb. Bydd angen sicrhau eich bod wedi llofnodi'r ffurflen sydd yn rhoi eich caniatad i'ch plentyn wneud defnydd o HWB os nad ydych wedi gwneud hyn yn barod. Drwy'r adnodd HWB, bydd gan y plant fynediad i weithgareddau amrywiol, a bydd yna hefyd fodd i athrawon gyfathrebu gyda'r disgyblion wrth osod tasgau a gweithgareddau amrywiol. Os nad oes gan eich plentyn fynediad i gyfrifiadur sydd yn ei galluogi i ddefnyddio HWB, yna a fyddech cystal a gadael i'r athro/awes ddsbarth wybod, fel y gellir paratoi adnoddau copi papur.
- Byddwch wedi derbyn cyfeiriad e.bost yr athro/awes ddsbarth yn rhan o'r pecynau a fydd wedi ei paratoi i'r plant.
- Os yw'r plant yn dod adref gyda llyfrau darllen ac unrhyw adnoddau eraill a fenthycir iddynt gan yr ysgol, a fydddech yn sicrhau fod y plant yn gofalu amdanynt ac yn ei dychwelyd i'r ysgol gyda'r plant ar ôl y Pasg.

Hoffwn ddymuno'r gorau i chi yn ystod yr amseroedd anodd a heriol yma.

Yn gywir

Rhodri Jones  
Pennaeth